YSGOL GYMRAEG TEILO SANT

POLISI CYFRYNGAU CYMDEITHASOL

Polisi Cyfryngau Cymdeithasol

Mae cyfryngau cymdeithasol (e.e. Facebook, Twitter, LinkedIn, Instagram) yn derm eang ar gyfer unrhyw fath o blatfform ar-lein sy'n galluogi pobl i ryngweithio'n uniongyrchol â'i gilydd. Fodd bynnag, mae gan rai gemau, er enghraifft Minecraft neu World of Warcraft, a phlatformau rhannu fideos, fel YouTube, elfennau cyfryngau cymdeithasol yn perthyn iddynt hefyd.

Rheolaeth sefydliadol

Swyddogaethau a Chyfrifoldebau

- **Uwch Dîm Rheoli**
  - Hwyluso hyfforddiant a chyfarwyddyd ar ddefnydd o Gyfryngau Cymdeithasol
  - Datblygu a gweithredu'r polisi Cyfryngau Cymdeithasol
  - Arwain ymchwiliadau i unrhyw ddigwyddiadau y tynnir sylw atynt
  - Cynnal asesiad cychwynnol pan roddir gwybod am ddigwyddiad, gan gynnwys staff priodol ac asiantaethau allanol yn ôl yr angen
  - Derbyn ceisiadau wedi'u cwblhau ar gyfer cyfrifon cyfryngau cymdeithasol.
  - Cymeradwyo creu cyfrif.

- **Gweinyddwr/cymedrolwr**
  - Creu'r cyfrif ar ôl cael cymeradwyaeth yr Uwch Dîm Arwain
  - Storio manylion cyfrif, gan gynnwys cyfrineiriau, yn ddiogel.
  - Ymwneud â monitro a chyfrannu at y cyfrif.
  - Rheoli'r broses ar gyfer rheoli cyfrif ar ôl i'r aelod o staff arweiniol adael y sefydliad (cau neu drosglwyddo).

- **Staff**
  - Bod yn gyfarwydd â chynnwys y cyfryngau cymdeithasol a sicrhau bod unrhyw ddefnydd ohonynt yn cadw at y polisi hwn ac at bolisïau perthnasol eraill.
  - Monitro, diweddaru a rheoli'r cynnwys maen nhw wedi'i roi ar gyfrifon yr ysgol yn rheolaidd
  - Ychwanegu ymwadiad priodol at gyfrifon personol wrth enw'r ysgol

Monitro

Rhaid monitro cyfrifon ysgol yn rheolaidd ac yn aml (7 diwrnod yr wythnos os yw hynny'n bosib, gan gynnwys yn ystod y gwyliau). Rhaid ymateb i unrhyw sylwadau, ymholiadau neu gwynion a wneir drwy'r cyfrifon hynny o fewn 24 awr (neu'r diwrnod gwaith canlynol os derbynnir ar y penwythnos), hyd yn oed os mai'r ymateb yw dim ond cydnabod derbyn. Mae monitro ac ymyrryd rheolaidd yn hanfodol rhag ofn y

bydd sefyllfa'n codi lle mae bwlio neu unrhyw ymddygiad amhriodol arall yn codi ar gyfrif cyfryngau cymdeithasol ysgol.

Naws

Dylai naws y cynnwys a gyhoeddir ar gyfryngau cymdeithasol fod yn briodol i'r gynulleidfa, gan gadw at lefelau priodol o safonau proffesiynol hefyd. Y geiriau allweddol i'w hystyried wrth gyfansoddi negeseuon yw:

- atyniadol
- sgyrsiol
- addysgiadol
- cyfeillgar

Defnydd o Luniau

- Dylid gofyn am ganiatâd i ddefnyddio unrhyw luniau neu fideos, yn unol â pholisi lluniau digidol a fideos yr ysgol. Os bydd unrhyw un, am unrhyw reswm, yn gofyn am beidio â chael ei ffilmio neu dynnu ei lun, rhaid parchu ei ddymuniadau.
- Ni ddylai staff rannu na llwytho lluniau i fyny o ddysgwyr ar-lein o dan unrhyw amgylchiadau ar wahân i drwy gyfrifon cyfryngau cymdeithasol sy'n perthyn i'r ysgol.
- Dylai staff ymarfer eu barn broffesiynol ynghylch a yw llun yn briodol i'w rannu ar gyfrifon cyfryngau cymdeithasol yr ysgol. Dylai'r dysgwyr fod wedi'u gwisgo'n briodol, heb greu testun gwawd ohonynt, ac ni ddylent fod ar unrhyw restr yn yr ysgol o blant na ddylid cyhoeddi eu lluniau.
- Os bydd aelod o staff yn tynnu llun amheus yn esgeulus - llun y gellid ei gamddehongli neu ei gamddefnyddio - rhaid iddo ei ddileu ar unwaith.

Defnydd Personol

- Cyfathrebu personol yw'r cyfathrebu a wneir ar gyfrifon cyfryngau cymdeithasol personol. Ym mhob achos, os defnyddir cyfrif personol sy'n ei gysylltu ei hun â'r ysgol neu'n effeithio ar yr ysgol, rhaid datgan yn glir nad yw'r aelod o staff yn cyfathrebu ar ran yr ysgol gydag ymwadiad priodol. Mae'r cyfathrebu personol o'r fath oddi mewn i gwmpas y polisi hwn.
- Mae cyfathrebu personol nad yw'n cyfeirio at yr ysgol nac yn effeithio arni y tu allan i gwmpas y polisi hwn.
- Os oes amheuaeth o ddefnydd personol gormodol o gyfryngau cymdeithasol yn yr ysgol, ac os credir bod hynny'n ymyrryd â dyletswyddau perthnasol, efallai y cymerir camau disgyblu.

- Mae’r ysgol yn caniatáu mynediad rhesymol a phriodol i safleoedd cyfryngau cymdeithasol preifat ar safle’r ysgol ond nid os yw eu defnydd yn effeithio ar eu gwaith yn ystod gwersi neu pan maent ar unrhyw ddyletswydd. Efallai y cymerir camau disgyblu os fydd defnydd personol yn effeithio ar eu gwaith.
- Ni chaniateir i staff ddilyn nac ymwneud â disgyblion presennol yr ysgol ar unrhyw gyfrif rhwydwaith cyfryngau cymdeithasol personol.